Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

1. Cyflwyniad

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9 mae'n ofynnol i'r holl bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y cynnydd a wnaethant yn cyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 3 Mehefin 2003 a 31 Mawrth 2004.

2. Yr Aelodau

2.1 Yn ystod y flwyddyn bu'r canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor:

David Melding (Cadeirydd)
Jocelyn Davies
Brian Gibbons (Gweinidog) (ers mis Ionawr 2005)
John Griffiths
Jane Hutt (Gweinidog) (tan fis Ionawr 2005)
Ann Jones (tan fis Ionawr 2005)
Val Lloyd
Jonathan Morgan
Lynne Neagle (ers mis Ionawr Ionawr 2005)
Karen Sinclair (ers mis Ionawr Ionawr 2005)
Gwenda Thomas (tan fis Ionawr 2005)
Rhodri Glyn Thomas
Kirsty Williams

3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod hwn cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol ar 13 o achlysuron. Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn gyhoeddus. Wrth glywed tystiolaeth ar gyfer ei adolygiad o'r berthynas rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, cyfarfu'r Pwyllgor yn Wrecsam.

4. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

4.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnwys pob agwedd ar ofal iechyd; diogelwch bwyd; gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol; plant a phobl ifanc, gan gynnwys gofal plant. Amgaeir portffolio'r Pwyllgor yn Atodiad 1.

4.2 Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

5. Nodau ac Amcanion

5.1 Disgrifiodd y Pwyllgor ei nodau yn y Flaenraglen Waith Strategol ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2004 tan fis Rhagfyr 2004, a gafodd ei chymeradwyo ar 5 Mai 2004. Y nod oedd craffu ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a monitro'r modd y maent yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gwasanaethau i wella'u hiechyd ar gael i bobl Cymru yn ogystal â gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ôl yr angen.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai, wrth adolygu a datblygu polisi, yn gwneud argymhellion a allai arwain at wasanaethau o ansawdd uchel, cost effeithiol sy'n cael eu rheoleiddio a'u harchwilio'n briodol.

6. Hynt y Gwaith

6.1 Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar graffu ar ddeddfwriaeth ac ar ei adolygiadau polisi. Mae hefyd wedi derbyn adroddiadau'n rheolaidd gan y Gweinidog ar flaenoriaethau a nodwyd yn y Flaenraglen Waith Strategol.

7. Datblygu ac Adolygu Polisi (Rheol Sefydlog 9.7)

Adolygiad o'r Berthynas rhwng y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

7.1 Parhaodd y Pwyllgor i gymryd tystiolaeth yn ystod tymor yr haf gan ddechrau ystyried ei gasgliadau a'i argymhellion ym mis Hydref. Cafodd yr adroddiad terfynol ei lansio ar 3 Mawrth 2005 yng Nghanolfan Forge, Port Talbot, ac roedd llawer o'r bobl a fu'n rhoi tystiolaeth yn bresennol. Trafodwyd yr adroddiad yn y cyfarfod llawn ar 9 Mawrth a bydd y Pwyllgor yn cael ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr haf.

Adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl - Safon 2: Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr

7.2 Yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal adolygiad polisi byr o Safon 2 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl - Grymuso defnyddwyr a Gofalwyr, a fyddai hefyd yn cynnwys gwasanaethau iechyd plant a'r glasoed. Dechreuwyd ymgynghori ym mis Gorffennaf a chafwyd 47 o ymatebion cyn y dyddiad cau. Mae 10 o unigolion/sefydliadau wedi rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Roedd y sefydliadau hyn yn cynrychioli amrywiaeth eang o ddiddordebau, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol, y GIG ac awdurdodau lleol.

7.3 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth y mae wedi'i derbyn dros yr haf ac yn adrodd i'r Cynulliad yn hwyrach yn y flwyddyn.

Materion Eraill o Ddatblygu ac Adolygu Polisi

7.4 Trafododd y Pwyllgor Gynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy drafft Llywodraeth y Cynulliad gan argymell nifer o feysydd i'w cynnwys yn y cynllun i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

7.5 Parhaodd i Pwyllgor i fonitro'r gwasanaethau a ddarperir i amddiffyn plant, ar ôl cyhoeddi adroddiad yr Arglwydd Laming ar yr ymchwiliad i farwolaeth Victoria Climbié, a chafwyd adroddiad gan Brif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr archwiliad o ymatebion awdurdodau lleol i adroddiad Victoria Climbié.

7.6 Yn dilyn trafodaeth ar y meini prawf arfaethedig i bobl gael defnyddio gwasanaethau ffrwythlondeb trydyddol, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor y dychwelyd at y pwnc wedi iddynt gael ymateb y Gweinidog i'w pryderon.

8. Craffu ar Ddeddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

8.1 Mae'r Pwyllgor yn cael rhestr reolaidd o is-ddeddfwriaeth arfaethedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae Aelodau'n nodi unrhyw eitemau y credant y dylai'r Pwyllgor graffu arnynt.

8.2 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried 11 o is-ddeddfwriaethau, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno. Ceir y manylion yn Atodiad 3.

8.3 Cyfeiriwyd dau Fesur i'r Pwyllgor yn dilyn y ddadl yn y cyfarfod llawn ym mis Rhagfyr ar araith y Frenhines i'r Senedd. Cafodd y ddau Fesur, y Mesur Plant a Mesur yr Asiantaeth Diogelu Iechyd eu hystyried gan y Pwyllgor ar 5 Mai 2004.

8. 4 Ar 14 Hydref, ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Iechyd Meddwl Drafft, a gyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 8 Medi, i graffu arno cyn y broses ddeddfu. Estynnodd y Pwyllgor wahoddiad i'r sefydliadau hynny yng Nghymru a roddodd dystiolaeth ar y Mesur drafft blaenorol ym mis Medi 2002, i wneud hynny eto. Ar ôl y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd at Gadeirydd y Cydbwyllgor Seneddol ar y Mesur Iechyd Meddwl Drafft; Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a Chadeirydd Pwyllgor Iechyd Ty'r Cyffredin yn amlinellu argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor. Yn dilyn hyn, bu'r Cadeirydd, yng nghwmni Rhodri Glyn Thomas AC a Kirsty Williams AC, yn rhoi tystiolaeth ar lafar ar ganfyddiadau'r Pwyllgor i'r Cydbwyllgor Seneddol.

9. Monitro a Chraffu (Rheol Sefydlog 9.7 (ii) a (iii))

9.1. Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar berfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r adroddiad a ddarperir gan y Gweinidog.

9.2. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar adroddiad blynyddol 2003-2004 Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bu hefyd yn craffu ar adroddiad blynyddol Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol ac, am y tro cyntaf yn hanes y Cynulliad, cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd ag Addysg a Dysgu Gydol Oes; Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio; i graffu ar Gomisiynydd Plant Cymru. Teimlwyd i'r cyfarfod ar y cyd fod yn llwyddiannus, a chaiff cyfarfod tebyg ei gynnal yn ystod 2004 - 05.

10. Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8)

10.1 David Melding a Val Lloyd yw'r rhai a enwebwyd gan y Pwyllgor i ystyried penodiadau cyhoeddus. Maent wedi bod ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi Cadeiryddion Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg, Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg ac Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda. Hefyd, bu David Melding ar y panel ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Abertawe a bu Val Lloyd ar y panel ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru. Maent wedi ymgynghori ar tua 109 o benodiadau eraill.

10.2 Roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gysylltiedig â'r paneli i benodi Cadeiryddion.

11. Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8)

11.1 Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2005-2006 a gwnaeth sylwadau arni. Ceir llythyr y Cadeirydd yn nodi argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad 4.

12. Materion Trawsbynciol

12.1 Bu David Melding yn cynrychioli buddiannau'r Pwyllgor yn adolygiad polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o anghenion addysgol arbennig.

13. Y Cynlluniau Statudol

13.1 Mae'r Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy yn ystod ei waith. Mae hefyd wedi rhoi ystyriaeth i ofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

14. Y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol

14.1 Mae blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2005-2006 wedi'u nodi yn y Flaenraglen Waith Strategol. Ymhlith y prif bynciau y mae:

- Gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n dioddef o iechyd meddwl, yn enwedig plant a'r glasoed;

- Gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru *("Adroddiad Wanless")*

- Lleihau amseroedd aros ysbytai

- Gofal Cymdeithasol - Safonau ac Ansawdd:
  Amddiffyn Plant ac
  Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

- Deddfwriaeth
  Deddfwriaeth sylfaenol a gyfeiriwyd gan y Cynulliad
  Y Mesur Comisiynydd Pobl Hŷn
  Is-ddeddfwriaeth y nododd y Pwyllgor y dylid craffu arno

- Adolygiad polisi

  Cwblhau gwaith ar yr adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl - Safon 2: Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr
  Cytuno ar destun ar gyfer adolygiad polisi sylweddol
  Bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar bolisïau Llywodraeth y Cynulliad megis amseroedd aros ysbytai a'r gwasanaethau nyrsio.

- Blaenoriaethau'r gyllideb

  Bydd y Pwyllgor yn monitro hynt Llywodraeth y Cynulliad yn y meysydd a ganlyn a nodwyd gan y Pwyllgor fel blaenoriaethau ar gyfer cyllideb 2006 - 06:
  - Y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl;
  - Gweithredu "Gwireddu'r Addewidion";
  - Gweithredu Hysbysu Gofal Iechyd;
  - Y Gwasanaeth ambiwlans a'r
  - Gwasanaeth Diabetes.

- Craffu ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (e.e. Y Cyngor Gofal, Proffesiynau Iechyd Cymru, Canolfan Iechyd Cymru).

David Melding
Y Cadeirydd

Atodiad 1

Portffolio'r Pwyllgor

Yn unol ag adran 57(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae portffolio'r Pwyllgor yn cyfateb i bortffolio'r Gweinidog Cynulliad:

- Pob agwedd ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, gan gynnwys practis cyffredinol a gofal sylfaenol, ***ac eithrio*** (*i) goruchwylio'r proffesiynau meddygol; (ii) polisi ar eni plant ar ran pobl eraill, senotrawsblannu, embryoleg a geneteg dynol; a (iii) thrwyddedu meddyginiaethau (Nid yw'r materion hyn wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol).*
- Taliadau am wasanaethau'r GIG, gan gynnwys taliadau presgripsiwn, deintyddol, offthalmig ac optegol.
- Darparu gwasanaethau yng Nghymru i bobl sy'n dioddef o afiechyd meddwl.
- Pob agwedd ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys diogelwch bwyd.
- Rheoleiddio gwenwynau.
- Gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru.
- Bwyd sydd wedi'i addasu'n enetig (***ac eithrio*** *tyfu cnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig - mater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yw hwn).*
- Goruchwylio gweithgareddau'r Comisiwn Archwilio mewn perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.
- Polisi ar ofal yn y gymuned.
- Polisi ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant, gan gynnwys rheoleiddio cylchoedd chwarae, canolfannau gweithgareddau a gwarchod plant.
- Goruchwylio gweithgareddau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau statudol.
- Goruchwylio
  Cyngor Gofal Cymru;
  Proffesiynau Iechyd Cymru;
  Canolfan Iechyd Cymru;
  Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
  Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.
- Rheoleiddio cartrefi gofal preifat a chartrefi nyrsio preifat yng Nghymru.
- Arolygu'r gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, a llunio adroddiadau am yr arolygiadau hynny (drwy Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru).
- Gwasanaethau mabwysiadu a maethu yng Nghymru ***(ac eithrio*** *achosion lle mae trigolion y DU yn mabwysiadu plant dramor).*
- Cyfrifoldeb trawsbynciol am blant, gwella iechyd, a phobl hŷn a gofalwyr.

Atodiad 2

Dyletswyddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o saith pwyllgor pwnc. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

"9.7. Bydd pob Pwyllgor Pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu;
iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob Pwyllgor Pwnc hefyd,

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22 (nawr Rheol Sefydlog 24);
ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19 (nawr Rheol Sefydlog 21);
iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion) (nawr Rheol Sefydlog 23);
iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20 (nawr Rheol Sefydlog 22);
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf.

Atodiad 3

Eitemau o Is-ddeddfwriaeth i'w hystyried gan y Pwyllgor

Teitlau	**Dyddiad ystyried**
Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004	5 Mai 2004
Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau i Ofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004	23 Mehefin 2004
Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Adolygiad Annibynnol o Benderfyniadau) (Cymru) 2004	23 Mehefin 2004
Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004	6 Hydref 2004
Rheoliadau Porthiant a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004	6 Hydref 2004
Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Olrhain a Labelu) (Cymru) 2004	6 Hydref 2004
Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004	6 Hydref 2004
Rheoliadau Gofal Dydd (Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005	3 Tachwedd 2004
Gorchymyn Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 (Cychwyn) (Cymru) 2005	2 Chwefror 2005
Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2005	2 Chwefror 2005
Rheoliadau Gwarchodaeth Arbennig (Cymru) 2005	2 Mawrth 2005

Atodiad 4

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NQ99 1

Eich cyf / Your Ref
Ein cyf / Our Ref HSS(2)-05-03

Jane Hutt AC
Y Gweinidog dros Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol

15 Tachwedd 2004

CYNIGION AR GYFER Y GYLLIDEB 2005 - 2006

1. Ar 3 Tachwedd cafodd y Pwyllgor eich cynigion manwl ar gyfer y gyllideb.

2. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar nifer o bwyntiau a nodwyd yng nghofnodion y cyfarfod, ac mae copi o'r cofnodion hynny ynghlwm.

3. Derbyniodd y Pwyllgor fyrdwn cyffredinol eich cynigion, ond roedd nifer o feysydd yn parhau'n aneglur a gwnaethoch gytuno i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor drwy:

i. roi manylion ynglŷn â'r ffordd y caiff y £16m ychwanegol ar gyfer **ystadau gofal sylfaenol** eu dyrannu;
ii. cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer gweithredu **Hysbysu Gofal Iechyd** yn eich adroddiad nesaf i'r Pwyllgor;
iii. egluro goblygiadau terfynu cytundebau nyrsio tymor byr ar gyfer **nyrsys o dramor**;
iv. roi manylion y gwaith o ddatblygu **clinigau Meddygon Teulu arbenigol**;
v. egluro sut y gellid sicrhau'r arbedion trwy wella effeithlonrwydd a gynigir o dan "**Creu'r cysylltiadau**" mewn gwariant ar iechyd erbyn 2010.

4. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gennych y byddai arian ar gael i:

i. weithredu'r Contract Fferylliaeth newydd, pe bai'n mynd rhagddo'r flwyddyn nesaf;
ii. cwblhau'r rhaglen adsefydlu ar gyfer cleifion ag anawsterau dysgu;
iii. gweithredu'r Mesur Iechyd Meddwl.

5. Yn olaf, dywedais fy mod yn pryderu am y ffaith nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer gwasanaethau diabetes, a nodwyd gan y Pwyllgor fel un o'i flaenoriaethau.

David Melding AC
Y Cadeirydd